



**Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint**  
**Tîm Datblygu Gweithlu**

# Rhaglen Hyfforddiant

Ebrill – Mehefin 2019

## **Croeso i Lyfryn Hyfforddiant Ebrill-Mehefin 2019!**

Wrth i nifer o wasanaethau wynebu newid mawr a heriau o'u blaenau, nid yw'r Tîm Datblygu'r Gweithlu yn wahanol. Ein prif her yw parhau i ddarparu'r hyfforddiant cywir yn unol â galw ac yn unol â deddfwriaeth. Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â TG eleni i barhau i ddatblygu Cronfa Ddata Hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Dros y chwarter nesaf, bydd ein blaenoriaethau yn cynnwys y canlynol:

- Cefnogi parhau i weithredu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru), gan gynnwys cefnogi'r gweithlu gofal cartref wrth baratoi ar gyfer cofrestru, a chefnogi gwybodaeth/ rolau Unigolion Cyfrifol.
- Cefnogi hyfforddiant, datblygiad a chymhwyso rheolwyr gofal cymdeithasol: gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm; a'r rheiny sydd angen cofrestru fel rheolwyr.
- Cefnogi datblygiad parhaus agweddau ar ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chefnogi ymarfer
- Cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cymhwyso ar gyfer gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ar ôl cymhwyso yng Nghymru (gyda phwyslais penodol ar ofynion y Fframwaith 3 Blynedd Cyntaf o Ymarfer ar gyfer pob Gweithiwr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ac sy'n newydd i'r swydd)
- Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol y rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau cyffredinol o ran gofal cymdeithasol, a chefnogi cyflwyno'r fframwaith gynefino ddiwygiedig
- Galluogi'r gweithlu i ddiwallu gofynion rheoleiddio ar gyfer cymhwyso a/ neu gofrestru gan ddefnyddio'r canllaw sydd ar gael yn y *Fframwaith Gymhwyso*
- Darparu dysgu a datblygiad i gyfarparu'r gweithlu i weithio'n effeithiol ochr yn ochr â gofalwyr ac i ddiwallu dyheadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar gyfer gofalwyr, mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ac arfer da mewn asesiadau anghenion gofalwyr.

**- Allison Lowry-Phillips, Rheolwr Datblygu'r Gweithlu**

Mae Tîm Datblygu Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yng Nghanolfan Fusnes Maes Glas ar hyn o bryd, sydd ar ffordd yr arfordir, o dan Dreffynnon. Caiff ei ariannu'n rhannol gan grant Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol, ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae'n ganolfan QCF, wedi'i hachredu gan City and Guilds, gyda 4 Aseswr yn ymdrin ag lechyd a Gofal Cymdeithasol a rhaglenni eraill. Mae dau Swyddog Datblygu Staff a Hyfforddi'n arwain yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant, ac un yn arwain ar gymwysterau a hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol.

## **MEYSYDD O WAITH**

### **Cyrsiau yn y ganolfan**

Mae cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb yn digwydd yng Nghanolfan Fusnes Maes Glas ar amrywiaeth eang o bynciau gofal cymdeithasol, ac yn cael eu cyhoeddi mewn Newyddlen chwarterol. Mae cyrsiau am ddim i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae modd cael ffurflenni cais cyrsiau unigol o [wtd@flintshire.gov.uk](mailto:wtd@flintshire.gov.uk), a dylid eu dychwelyd at y cyfeiriad hwn.

## Talebau Hyfforddi

Mae talebau hyfforddi yn rhoi'r cyfle i staff gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol, o asiantaethau yn Sir y Fflint, gael mynediad at hyfforddiant gorfodol neu graidd gan ddarparwyr hyfforddiant lleol cymeradwy. Rhaid i asiantaethau lenwi holiadur gweithlu blynyddol gyntaf, ac maent yna'n cael talebau wedi'u dyrannu iddynt yn ôl nifer y staff gofal maent yn eu cyflogi yn y sir.

Mae nifer y talebau sydd ar gael yn dibynnu ar swm y grant Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol a ddyrannir i'r cynllun. Mae modd cyfnewid talebau hyfforddiant i roi mynediad â chymhorthdal i hyfforddiant gorfodol neu graidd, fel y nodir ym Mhasport Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru. Dylid anfon e-bost gydag ymholiadau am y cynllun talebau at [wdt@flintshire.gov.uk](mailto:wdt@flintshire.gov.uk), neu ffonio 01352 702591.

## QCF

Mae'r Ganolfan QCF ym Maes Glas yn cynnig QCF lefel 2, 3 a 5 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol, i staff sy'n gweithio ym maes gwasanaethau oedolion: pobl hŷn, iechyd meddwl, anabledau dysgu, gofal preswyl a gofal cartref. Rydym hefyd yn cynnig QCF lefel 2 mewn Dementia; a Dyfarniad Iechyd Meddwl Cymunedol lefel 3 Datblygu Arfer yn y Gymuned. Mae yna restr aros o ymgeiswyr, a rhoddir blaenoriaeth yn ôl natur y swydd, rôl a chymwysterau presennol. Gellir trefnu i gael trafodaeth ynghylch addasrwydd y rhaglen QCF i rôl person, a cheisiadau ar gyfer y rhaglen, drwy anfon e-bost at [fran.graham@flintshire.gov.uk](mailto:fran.graham@flintshire.gov.uk). Nid yw Tîm Datblygu'r Gweithlu'n codi tâl ar ddarparwyr gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint, ar gyfer rhaglenni QCF. Mae ystod eang o opsiynau QCF ar gael drwy Goleg Cambria a darparwyr eraill.

## Datblygu Gyrfa Gofal Cymdeithasol

Mae Swyddog Datblygu a Hyfforddi Staff penodol ar gael i gynghori unigolion sydd eisiau datblygu eu gyrfa mewn Gofal Cymdeithasol. K101, *Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, yw modiwl lefel 1 rhagarweiniol allweddol y Brifysgol Agored, sy'n rhoi trosolwg awdurdodol o iechyd a gofal cymdeithasol, gydag astudiaethau achos go iawn sy'n eich ymdrwytho'n llawn yn y profiad o gael gofal a gweithio mewn gwasanaethau gofal. Mae KZW113, *Sylfeini Arfer Gwaith Cymdeithasol*, yn fodiwl lefel 1 arall gan y Brifysgol Agored, a fydd yn datblygu eich gwybodaeth am rolau allweddol gofal cymdeithasol/gwaith cymdeithasol, ac yn cyflwyno'r safonau a'r codau ymarfer. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at [carol.armstrong@flintshire.gov.uk](mailto:carol.armstrong@flintshire.gov.uk)

## Gwaith Datblygu

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu'n dosbarthu ac yn casglu Arolwg Gweithlu blynyddol i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae'r arolwg yn mapio anghenion datblygu yn ôl hyfforddiant craidd ac arbenigol, a datblygu rheolaeth. Mae'n rhoi'r wybodaeth ofynnol i Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru i edrych ar barhad busnes, ac yn gysylltiedig â'r cynllun rhanbarthol i gefnogi gwasanaethau cynaliadwy. Am ragor o wybodaeth am yr arolwg, anfonwch e-bost at [wdt@flintshire.gov.uk](mailto:wdt@flintshire.gov.uk)

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu'n cydlynu Partneriaeth Strategaeth Hyfforddiant Sir y Fflint, sy'n cyfarfod bob chwarter i adolygu, monitro, cynllunio a thrafod anghenion hyfforddi gofal cymdeithasol yn y sir, ac i gyfrannu at Gynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae croeso i bob darparwr gofal cymdeithasol Sir y Fflint fod yn rhan o'r Bartneriaeth Strategaeth Hyfforddiant. Am ragor o wybodaeth am hyn, anfonwch e-bost at [Allison.Lowry-Phillips@flintshire.gov.uk](mailto:Allison.Lowry-Phillips@flintshire.gov.uk)

Cyfeiriad e-bost  
Gweithlu yw:

**Allwedd o ran pwy all fynd ar gyrsiau:**

**IS** – Sector Annibynnol  
**SSA** – Gwasanaethau Oedolion  
**SSC** – Gwasanaethau Plant  
**PA** – Cymhorthwyr Personol  
**VO** – Sefydliadau Gwirfoddol

Tîm Datblygu'r

[wdt@flintshire.gov.uk](mailto:wdt@flintshire.gov.uk)

Ymholiadau dros y ffôn: 01352 702591

## Tîm Datblygu Gweithlu

Allison Lowry-Phillips - Rheolwr Datblygu'r Gweithlu 01352 702591  
Carol Armstrong – Swyddog Hyfforddi Gwaith Cymdeithasol 01352 702661  
Claire Moulton – Cymhorthydd Clercio 01352 702657  
Emily Humphreys – Swyddog QCF 01352 702970  
Fran Frost – Swyddog Datblygu QCF 01352 702969  
Helen Dransfield - Gweinyddwr 01352 702591  
Jackie Goundrey – Swyddog Hyfforddi Datblygiad Staff 01352 702670  
Kath Fleet - Swyddog QCF 01352 702595  
Kerry Jones – Swyddog LDQ 01352 702671

## CYFARWYDDIADAU O'R A55

### Mynd tua'r gorllewin ar yr A55:

- Wrth gyffordd 32, cymerwch yr A5026 am Holywell/Treffynnon
- Yn Holywell/Treffynnon
- Dilynwch yr arwyddion i Ffynnon Gwenffrewi.
- Ewch yn igam-ogam heibio Lidl a Tesco a heibio Ffynnon Gwenffrewi.
- Dilynwch yr arwyddion i Faes Glas, parhewch i lawr Ffordd Maes Glas i'r pen.
- Yn y goleuadau, trowch i'r dde ar Ffordd Bagillt/A548.
- Trowch yn syth i'r dde i Ganolfan Fusnes Maes Glas.



## Cyfeiriad

Tîm Datblygu Gweithlu  
Parc Busnes Maes Glas  
Ffordd Bagillt,  
Maes Glas CH8 7GR

# **ADHD**

## **Gweithio gyda Phobl Ifanc ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)**

IS, SSA, SSC, PA, VO

**Mae'r cwrs undydd hwn yn rhoi gwybodaeth am weithio gyda phobl ifanc gydag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), neu ofalu amdanynt. Mae'n disgrifio cefndir, hanes a diffiniadau'r anhwylder ac anhwylderau cysylltiedig, yn cynnwys arwyddion a symptomau nodweddiadol. Mae'n archwilio dulliau ymddygiadol, meddygol a dulliau eraill cyfredol o reoli'r anhwylder. Mae'n edrych ar sut mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn effeithio ar y teulu, gyda phersbectif teuluol ar strategaethau a sgiliau i dawelu'r anhrefn ac ymdopi ag ymddygiad.**

Mae'n archwilio sut i ymgysylltu â'r person ifanc, gan werthfawrogi effaith y cyflwr yn y cartref, yn yr ysgol, mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, addysg bellach, cyflogaeth yn y dyfodol ac wrth ddatblygu perthnasau.

Mae'r cwrs yn archwilio perthnasedd anghenion iechyd arferol, yn cynnwys diet, maeth, ymarfer corff a phatrymau cysgu iach, ac yn archwilio ymyriadau a chynlluniau tymor byr, canolig a hir i gael y canlyniadau gorau posibl.

Bydd cyfranogwyr yn:

- Deall diffiniadau, achosion ac effeithiau anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.
- Gwerthfawrogi sut mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd yn effeithio ar y person ifanc, teulu ac eraill.
- Dysgu strategaethau a sgiliau y gellir eu cynnig i'r teulu a'r person ifanc ar gyfer tawelu'r anhrefn maent yn ei brofi.
- Datblygu'r cam o weithio'n effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill.
- Tynnu ar wersi o ymchwil ac arfer gorau i wella'r gwaith o gynllunio camau gweithredu gyda'r person ifanc a'r teulu.

**Dyddiadau: 9 Ebrill 2019**

**Amser: 9.30am-4.30pm**

**Hyfforddwr: Alan Roberts; CAMHS**

# YMWYBYDDIAETH O AWTISTIAETH

SSA, SSC, VO, IS, PA

Nod y cwrs undydd hwn yw darparu rhagor o ddealltwriaeth o'r anhwylder ar y sbectrwm awtistig, codi ymwybyddiaeth ac awgrymu strategaethau a dulliau gweithredu i staff sy'n gweithio gyda phobl ag awtistiaeth. Bydd y sesiynau yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc ag awtistiaeth.

## Amcanion y Cwrs

Erbyn diwedd y cwrs, bydd cyfranogwyr yn:

- Meddu ar ddealltwriaeth well o awtistiaeth a sut caiff ei arddangos
- Gallu nodi'r Triad o Ddiffygion ac archwilio'r amrywiaeth o alluoedd a welir mewn Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig
- Wedi archwilio'r meddwl presennol o ran achosion Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig
- Yn meddu ar ddealltwriaeth well o rywfaint o theori o ran awtistiaeth
- Yn fwy gwybodus am ddefnydd o strategaethau ymarferol
- Wedi datblygu dealltwriaeth o unigoliaeth a sut i weithio'n fwy effeithiol mewn amgylchedd gwaith

## Gwybodaeth am QCF

Gellir cymryd y cwrs undydd naill ai fel hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar wahân, neu (drwy gwblhau'r llyfr gwaith) ar gyfer 3 chredyd tuag at QCF lefel 3. Mae'n cysylltu ag uned QCF 378 *Deall sut i gefnogi unigolion gydag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig*.

**Hyfforddwyr:** Kerry Jones a Steve Brown, Cyngor Sir y Fflint

**Dyddiadau:** 30 Ebrill 2019  
28 Mai 2019

**Amser:** 9.30am-4.30pm

# LLYS GWARCHOD

SSA, VO, IS

**Mae'r seminar 2 awr hon gan gyfreithiwr yn cyflwyniad i ac yn drosolwg o'r Llys Gwarchod o safbwynt cyfreithiol. Mae'n amlinellu'r egwyddorion mewn perthynas â chapasiti a diogelu, ac mae wedi'i anelu at sicrhau fod Gweithwyr Cymdeithasol a'u swyddogion cyfreithiol yn hollol barod wrth gyflwyno achosion, ac wedi'u cyfarparu i nodi sefyllfaoedd pan ddylid cyflwyno achosion.**

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys astudiaethau achos mewn perthynas â'r Ddeddf Galluoedd Meddyliol a sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae hefyd yn cyffwrdd ar amddifadu o ryddid, nodi amddifadau a phryd/sut i ddod ag achosion. Mae'n cloi gyda chrynodeb o geisiadau ynghylch cyllid yn y Llys Gwarchod.

**Hyfforddwr:** Tom Young, Price Slater Gawne Law

**Dyddiad:** 12 Mehefin 2019

**Amser:** 10.00-12.00

# Ymwybyddiaeth Dementia

SSA, SSC, VO, IS, PA

Mae dementia yn dod yn fwy a mwy cyffredin, oherwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio a gwell adnabyddiaeth o'r cyflwr. Fodd bynnag, mae natur dementia yn golygu y gall cefnogi pobl yn effeithiol i fyw yn dda gyda'r cyflwr beri problemau unigryw ac weithiau anodd, yn y gymuned ac mewn gofal preswyl. Mae'r gweithdy Ymwybyddiaeth Dementia hanner diwrnod hwn wedi cael ei ddylunio i ymgyswrtio staff gofal cymdeithasol gydag adnabod, deall, asesu, gofalu a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd yn effeithiol, er mwyn sicrhau gofal dementia tosturiol ac o ansawdd uchel.

Mae'r gweithdy yn anelu at fynd i'r afael â:

- Disgrifiadau a diffiniadau o ddementia
- Deall dementia o safbwynt y person
- Deall dementia o safbwynt y gofalwr
- Beth mae dull sy'n canolbwyntio ar y person tuag at ddementia yn ei olygu
- Cynhwysiant a chyfathrebu mewn gofal dementia
- Cefnogaeth i'r person gyda dementia ac i'r teulu

**Hyfforddwr: Luke Pickering-Jones**

**Dyddiad: 8 Mai 2019**

**Amser: 9.30am-12.30pm**



# **TALIADAU UNIONGYRCHOL: Grymuso mewn Partneriaeth**

**IS, SSA, SSC, PA, VO**

**Os caiff gofalwr, neu'r unigolyn maen nhw'n gofalu amdano, eu hasesu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel bod angen cefnogaeth, mae ganddynt hawl i ofyn am daliadau ariannol, yn hytrach na bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn trefnu cefnogaeth iddynt. Gelwir y gefnogaeth ariannol hon yn Daliadau Uniongyrchol.**

Mae'r gweithdy hanner diwrnod hwn yn archwilio cyd-destun presennol Taliadau Uniongyrchol o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r cyfleoedd am rymuso, meddwl yn greadigol ac arloesedd. Mae'n gyfle i ganolbwyntio ar beth sy'n bwysig i bobl, sut gellir eu cefnogi i gyflawni canlyniadau pwrpasol, a chael atebion i gwestiynau a allai fod wedi'u gofyn i chi ond eich bod wedi ei chael yn anodd eu hateb.

Nodau dysgu:

- Deall yr egwyddorion sy'n sail i daliadau uniongyrchol gan gynnwys grymuso, dewis a rheolaeth
- Archwilio sut gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflawni canlyniadau lles pwrpasol
- Deall deddfwriaeth allweddol
- Archwilio defnydd creadigol ac arloesol o daliadau uniongyrchol
- Archwilio sut gall taliadau uniongyrchol lywio eich arfer proffesiynol

**Dyddiad: 1 Mai 2019 (9.30am-1.00pm)**

Hyfforddwr: Mark Cooper

# **EPILEPSI A MEDDYGINIAETH ACHUB AR GYFER STAFF ANABLEDDAU DYSGU**

IS, SSA, PA, VO

**Dyluniwyd y cwrs hwn ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu sydd ag epilepsi, i'w helpu i ddeall y cyflyrau, y ffactorau risg, ac i asesu pryd mae angen meddyginiaeth achub. Mae'r cwrs yn cwmpasu gweinyddu buccal midazolam a hefyd cymorth cyntaf ar gyfer epilepsi.**

Erbyn diwedd y cwrs, bydd gan gynrychiolwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth well am:

- Ddiffiniadau epilepsi
- Sut i drafod triniaeth pobl ag epilepsi yn y gorffennol
- Prif achosion a mathau o epilepsi
- Sbardunau ar gyfer achosion o epilepsi
- Prif risgiau bod ag epilepsi
- Cymorth cyntaf ar gyfer achosion o epilepsi
- Status epilepticus (gwingo a di-wingo)
- Pryd i ffonio 999 (ambiwylans)
- Triniaethau ar gyfer status epilepticus a sut maen nhw'n gweithio (e.e. diazepam rhesfol a midazolam geneuol)
- Pharmacokinetics sylfaenol – y ffordd y caiff cyffuriau eu hamsugno yn y corff
- Pryd a sut i roi midazolam geneuol
- Gofal ar ôl achos o epilepsi
- Pwysigrwydd a gwerth cadw cofnodion da o ran cefnogaeth epilepsi
- SUDEP

**Dyddiad: 6 Mehefin 2019**

**Amser: 9.30am – 4.30pm**

**Hyfforddwr: Nyrs Gymunedol Anableddau Dysgu BIPBC**

## **ATAL CODYMAU EFFEITHIAU BOD YN EISTEDDOG**

### **Canllaw i atal codymau a chynnal symudedd**

Mae'r gweithdy dwy awr hwn ar atal codymau yn amlygu pwysigrwydd cynnal y symudedd mwyaf posibl, er mwyn deall y berthynas o fod yn eisteddog ac atal codymau, mewn gofal preswyl a chartref. Bydd y mynychwyr yn magu gwell dealltwriaeth o effeithiau bod yn eisteddog er mwyn:

- Cael mewnwelediad i bwysigrwydd symudedd ac iechyd da
- Cydnabod effaith bod yn eisteddog ar y risg o godymau
- Gallu trafod ffyrdd ymarferol o wella symudedd, cryfder a chydbwysedd
- Datblygu gwybodaeth ynghylch monitro a chanllawiau ar atgyfeirio i ffisiotherapyddion

**Dyddiad:** 9 Ebrill 2019, 10.00am-12.00pm

## **ATAL CODYMAU AC ESGIDIAU**

### **Sut mae siâp y droed yn effeithio ar gydbwysedd a'r dewis o esgid?**

Mae'r gweithdy dwy awr hwn ar Atal Codymau yn amlygu pwysigrwydd ymwybyddiaeth o rôl u traed ar gydbwysedd, deall anhwylderau'r droed, mewn gofal preswyl a chartref. Bydd mynychwyr yn cael gwell dealltwriaeth o ofal traed ac esgidiau, er mwyn:

- Adnabod effaith materion sy'n ymwneud â'r droed mewn perthynas â risg codymau
- Trafod ffyrdd ymarferol o sicrhau gofal traed da
- Datblygu gwybodaeth ynghylch monitro a chanllawiau ar atgyfeirio i bodiatregwyr.

**Dyddiad:** 3 Gorffennaf 2019, 10.00am-12.00pm

# RHEOLI HAINT

Mae'r sesiwn ddwy awr hon ar gyfer staff gofal uniongyrchol yn y gwasanaethau oedolion. Mae'n trin diffiniadau o haint a lledaeniad uniongyrchol ac anuniongyrchol haint. Mae'n ystyried rhagofalon sylfaenol cyffredinol a hylendid dwylo, gan gynnwys PPE o ran anafiadau o bethau miniog a firsau sy'n cael eu cludo yn y gwaed. Mae'n archwilio rheoli gwastraff a llieiniau, a chyfrifoldebau Cyflogwyr a Gweithwyr.

Bydd cyfranogwyr magu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran:

- Deddfwriaeth a gofynion statudol o ran rheoli haint
- Nodi risgiau haint yn y gweithle a'r amgylchedd ofalu
- Gwybod beth yw haint a allu ei adnabod
- Gwybod sut y gellir lledaenu haint a sut i'w atal
- Pwysigrwydd gwybod am bolisiau a gweithdrefnau o ran llywodraethu rheoli haint a'u dilyn

**Dyddiadau: 14 Mai 2019**  
**17 Mehefin 2019**

**Amseroedd:**

- **9.30 - 11.30am**
- **12.00 - 2.00pm**
- **2.30 - 4.30pm**

*Wrth wneud cais, nodwch y dyddiad a'r amser. Sicrhewch bod staff yn gwybod ar ba sesiwn y mae lle wedi'i gadw ar eu cyfer.*

# **HYFFORDDIANT GWEITHWYR SY'N GWEITHIO AR EU PEN EU HUNAIN**

*Ar gyfer staff Cyngor Sir y Fflint yn unig*

CS, AS

**Mae'r cwrs 2 awr Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun hwn wedi'i ddylunio i helpu gweithwyr a rheolwyr i ddeall eu cyfrifoldebau o ran gweithio ar eich pen eich hun. Mae'n bwydo i'r asesiadau risg gweithio ar eich pen eich hun y mae rheolwyr a staff yn eu cwblhau, er mwyn cadw'n ddiogel yn y gwaith. Dewch ag enghreifftiau o unrhyw asesiadau risg gweithio ar eich pen eich hun rydych yn eu defnyddio ar hyn o bryd.**

Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn deall:

- Beth mae'r Gyfraith a Safonau Corfforaethol yn ei ddweud
- Cyfrifoldebau Rheolwyr a Gweithwyr
- Asesiadau Risg Gweithio Ar Eich Pen Eich Hun
- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Personol

**Dyddiad: 16 Mai 2019**

**Amser: 10.00-12.00**

Hyfforddwr: Nicola Smith

***Argymhellir ar gyfer y Tair Blynedd Cyntaf mewn Ymarfer***

# MAKATON AR GYFER DECHREUWYR

IS, SSA, SSC, PA, VO

Mae'r cwrs deuddydd hwn wedi'i ddylunio i ddarparu dealltwriaeth sylfaenol o Makaton ar gyfer staff sy'n gofalu am blant neu oedolion sydd ag anableddau dysgu neu anawsterau cyfathrebu, ac sy'n cael trafferth cyfleu eu hunain i eraill nei i ddeall eraill. Gall anawsterau cyfathrebu brocio rhwystredigaeth ddwys, ymddygiad heriol ac ynysu, a bod yn rhwystr o ran cyflawni. Mae Makaton yn rhaglen iaith sy'n defnyddio arwyddion a symbolau i helpu pobl gyfathrebu. Mae wedi ei ddylunio i gefnogi iaith lafar a defnyddir yr arwyddion a'r symbolau gyda lleferydd yn nhrefn y gair llafar.

***Rhaid i fynychwyr allu dod i'r ddau ddiwrnod.***

Bydd cyfranogwyr yn:

- Dysgu am gefndir, theori a phwrpas Makaton, gyda throsolwg o systemau cyfathrebu amgen
- Deall defnyddiau ymarferol Makaton
- Cael cyflwyniad i Eirfa Sylfaenol Makaton
- Cael dealltwriaeth sylfaenol o'r defnydd o arwyddion a themâu datblygu symbolau

**Dyddiadau: 18 a 19 Mehefin 2019 (cwrs deuddydd)**

**Amser: 9.30am-4.30pm**

**Hyfforddwr: Lowri Roberts**

# **CAETHWASIAETH FODERN/ TRAIS AR SAIL ANRHYDEDD**

**IS, SSA, SSC, PA, VO**

**Darperir y cwrs un dydd hwn gan Heddlu Gogledd Cymru, a'i nod yw cynyddu gwybodaeth gweithwyr proffesiynol rheng flaen ynghylch Caethwasiaeth Fodern, gan gynnwys masnachu oedolion ar draws y DU. Mae'n cynnwys adnabod caethwasiaeth modern, gweithdrefnau diogelu, deddfwriaeth gyfredol a'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Bydd sesiwn y prynhawn yn darparu cyfle i adnabod a gwella dealltwriaeth mewn perthynas â trais ar sail anrhydedd, gan gynnwys Priodas dan Orfod.**

**Dyddiad: 13 Mehefin 2019**

**Amser: 9.30am-4.30pm**

**Hyfforddwr: Jim Coy**

## **HYLENDID Y GEG**

**Ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.**

**SSA, IS, PA, VO**

**Mae'r gweithdy dwy awr hwn ar Hylendid y Geg ar gyfer staff gofal uniongyrchol sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu. Mae gan bobl ag anableddau dysgu risg uwch o afiechydon deintyddol megis dannedd yn pydru ac afiechyd y gymiau. Mae tystiolaeth yn awgrymu bydd y bobl rydych yn eu cefnogi angen rhyw fath o gymorth i gynnal lefel dda o hylendid y geg.**

**Amcanion y cwrs yw cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o:**

- **Sut a phryd i fynd at wasanaethau deintyddol**
- **Sut i adnabod os oes problem ddeintyddol**
- **Pwysigrwydd trefn hylendid y geg da, gan gynnwys arddangosiad brwsio dannedd**

**Hyfforddwr: Maria Pemberton, Addysgwr Iechyd y Geg, BIPBC**

**Dyddiad: 4 Ebrill 2019**

**Amseroedd: 9.30am-12.30pm NEU 1.30pm-4.30pm**

**Sylwch bod 2 sesiwn:**

**Sicrhewch eich bod yn nodi'r slot amser o'ch dewis!**



# **CYMHORTHYDD PERSONOL HYFFORDDIANT SEFYDLU**

PA

**Mae'r gweithdy hanner diwrnod hwn yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob Cymhorthydd Personol.**

**Mae rôl Cymhorthydd Personol yn allweddol i roi cefnogaeth o ansawdd uchel ac wedi'i phersonoli, i bobl anabl a phobl hŷn. Bydd y rhai sy'n bresennol yn gallu cael dealltwriaeth o sut mae eu rôl yn gweddu â'r ddeddfwriaeth gyfredol, Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a disgwyliadau derbynyddion Taliadau Uniongyrchol. Bydd y rhai sy'n bresennol hefyd yn cael gwybodaeth a chyingor ynglŷn â datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a chymwysterau.**

Bydd y cwrs yn rhoi cyfle i archwilio rôl y Cymhorthydd Personol yn fanwl, a sut mae hyn yn cyd-fynd â chyd-destun cyfredol Taliadau Uniongyrchol, yn cynnwys:

- Deall Taliadau Uniongyrchol
- Gwybod beth sy'n ddisgwyliedig gan Gymhorthydd Personol
- Deall anabledd
- Diogelu
- Iechyd a Diogelwch
- Eich hawliau
- Cyfleoedd Dysgu a Datblygu Personol

**Dyddiad: 17 Ebrill 2019, 9.30am-12.30pm**

Hyfforddwr: Mark Cooper

# **SEICOSIS: ASESIADAU AC YMYRIADAU**

SSA, VO, IS, PA

**Mae'r gweithdy hanner diwrnod hwn wedi'i anelu at Wasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl, Gweithwyr Cymdeithasol Cymunedol, a staff mewn timau gofal cymdeithasol i oedolion sydd angen ymwybyddiaeth o'r gwahanol asesiadau ac ymyriadau a allai gael eu cynnig i unigolion y mae seicosis yn effeithio arnynt, er mwyn helpu staff i gymryd rhan mewn trafodaethau rhwng yr unigolyn, gweithwyr proffesiynol eraill ac aelodau'r teulu. Bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddulliau Therapi Ymddygiad Gwybyddol. Bydd y gweithdy yn archwilio:**

- Ailedrych ar sesiwn Gyflwyniad/Trosolwg flaenorol
- Asesu symptomau seicotig
- Fformiwleiddiad seicosis
- Nodau ymyriadau
- Gweithio gyda lleisiau
- Gweithio gyda syniadaeth rhithiol

**Dyddiad: 14 Mehefin 2019, 1.30-4.30pm**

**Hyfforddwr:** John Carden, Nyrs Glinigol Arbenigol PSI, Cymuned Sir y Fflint  
Timau Iechyd Meddwl, Canolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas

# **SESIWN GLOYWI DIOGELU OEDOLION A PHLANT**

IS, SSA, SSC, PA, VO

**Mae'r cwrs Diogelu Oedolion a Phlant ar y cyd hwn yn hyfforddiant gloywi, i staff sydd eisoes wedi dilyn cwrs Ymwybyddiaeth o Ddiogelu cymeradwy. Argymhellir cael hyfforddiant gloywi diogelu o leiaf bob 3 blynedd. Mae'r digwyddiad hanner diwrnod hwn yn addas i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr, y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â phobl ddi-amddiffyn o bosibl.**

## **Amcanion y Cwrs**

- Gloywi eich gwybodaeth am eich rôl mewn diogelu oedolion, plant a phobl ifanc rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod
- Bod yn ymwybodol o newidiadau i ddiogelu o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Myfyrio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'i ddatblygu ers eich hyfforddiant diogelu diwethaf.

**Dyddiad: 21 Mai 2019  
5 Gorffennaf 2019**

**Amser: 9.30am-12.30pm**

**Hyfforddwr: Jackie Goundrey**

# Camddefnyddio Sylweddau

IS, SSA, SSC, PA, VO, FC

## Trosolwg o faterion a chyflwyniad i wasanaethau

Mae'r cwrs hanner diwrnod hwn yn archwilio materion defnyddio a chamddefnyddio sylweddau ymysg oedolion a'r goblygiadau ar fywyd teuluol a pherthnasau. Mae'n ymdrin â gwahanol fathau o ddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, rhesymau pam fod pobl yn defnyddio sylweddau a'r risgiau cysylltiedig. Mae hefyd yn mynd i'r afael â rhieni/gofalwyr yn defnyddio sylweddau. Bydd ymyriadau ac ymatebion i rieni yn defnyddio sylweddau yn cael eu hystyried er mwyn diogelu'r plentyn a mynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau. Mae'n edrych ar sgrinio, ymyriadau byr, newid ymddygiad, atgyfeiriadau a thriniaeth effeithiol. Mae hefyd yn archwilio egwyddorion a sgiliau craidd wrth hyrwyddo newid mewn defnyddwyr sylweddau, a sut i sicrhau atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau arbenigol. Byddwch yn cael gwell dealltwriaeth o:

- Trosolwg o Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Sir y Fflint
- Yr hyn a olygir gan gamddefnyddio sylweddau
- Dealltwriaeth mwy clir o sylweddau, gweinyddiaeth a'r effeithiau seicolegol a chorfforol
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau a lleihau niwed
- Sut i ymateb i ddefnyddio sylweddau mewn defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Sut i ddarparu sgrinio, ymyriadau cryno ac atgyfeiriadau effeithiol i wasanaethau arbenigol.

**Dyddiad: 9 Ebrill 2019**

**Amser: 1.30am-4.30pm**

Hyfforddwr: Pamela Wilkinson, Gwasanaeth Camddefnyddio  
Sylweddau

***Argymhellir ar gyfer y Tair Blynedd Cyntaf mewn Ymarfer***